

BRYAN, JOHN (1776 - 1856), gweinidog Wesleaid



Enw: John Bryan
Dyddiad geni: 1776
Dyddiad marw: 1856
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog Wesleaid
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Albert Hughes Williams

Ganwyd yn Llanfyllin, lle y treuliodd ran helaeth o'i febyd gydag un John Rogers, ei ewythr. Symudodd i Amwythig pan yn 12 oed, ac yn ystod y blynyddoedd wedyn i Gorwen, Bala, a Wrecsam; yn 1798 aeth i weithio yn siop ddillad y boneddigesau Williams, merched Richard Williams, Rackery, ger Gresford. Cafodd droedigaeth yn Rhagfyr 1798 ac ymunodd â'r Methodistiaid Calfaidd Cymreig yng Nghaer, ond yn fuan iawn ymaelododd yng nghapel Wesleaid yr Octagon yn y ddinas. Dechreuodd bregethu fel pregethwr cynorthwyol yn Chwefror 1800, ac yn ystod y deunaw mis dilynol bu'n gymorth mawr i **Owen Davies** a **John Hughes**, y ddau genhadwr a anfonwyd gan y gynhadledd Wesleaid i Ogledd Cymru yn 1800. Aeth i'r weinidogaeth yn 1801 a theithiodd ar amryw o gylchdeithiau yng Nghymru tan 1815. Bu'n teithio yn Lloegr o 1815 ymlaen, ond gadawodd y weinidogaeth yn 1824 ac ymsefydlu yn Leeds fel groser a marsiandwr te. Dychwelodd i Gymru yn 1831 oherwydd afiechyd ei wraig, ac ymsefydlodd fel groser yng Nghaernarfon. Bu'n weithgar yno fel pregethwr cynorthwyol hyd o fewn ychydig wythnosau i'w farw, 28 Mai 1856.

Ar adegau yr oedd Bryan braidd yn fyrbwyll ac annoeth, a'i fflachiadau o arabedd yn peri loes. Eithr yr oedd yn ychwanegiad gwerthfawr at rengeodd y cenhadon Wesleaid Cymreig ym mlynnyddoedd cynnar y 19eg ganrif ac yn gyfrwng i ennill llawer at grefydd ac at yr eglwys a wasanaethodd mor hir - yn rhinwedd ei gyfieithiadau yn Gymraeg o rai o emynau John a Charles Wesley a rhai o draethodau diwinyddol **Owen Davies**; ei amddiffyniad o Arminiaeth; ac yn bennaf oll ei ddoniau fel pregethwr gwreiddiol ac effeithiol.

Awdur

Albert Hughes Williams, (1907 - 1996)

Ffynonellau

William Davies, *John Bryan a'i Amserau* (Bangor 1900)

Archifau LIGC: NLW MS 3504B: **John Bryan**: *Journal*

A. H. Williams, *Welsh Wesleyan Methodism, 1800-1858 its origins, growth and secessions* (1935), 97-8, 170-1, etc.

Darllen Pellach

T. Morgan, *Enwogion Cymreig 1700-1900* (1907), t.35

Erthygl Wicipedia: **John Bryan**

Delweddau

John Thomas, *Welsh Wesleyan Ministers*, multi-portrait

Gweithiau

John Haime, John Bryan (cyf.), *Hanes bywyd Mr. John Haime, yr hwn a ymroddodd yn sawdwr: ynghyd â'i lwyddiant yn pregethu yr efengyl ymhlith ei gyd-filwy(Dolgelleu 1811)*

Dolenni Ychwanegol

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Williams, A. H., (1953). BRYAN, JOHN (1776 - 1856), gweinidog Wesleiaidd. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 11 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-BRYA-JOH-1770>

Bywgraffiadur

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGELL
THE NATION



Woddi gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government